

ATODIAD 10

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:

4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2022/23, yn sgil cyfnod diweddar o chwyddiant cynyddol, caniatwyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am dâl a phrisiau. Fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai'r lefel gymharol uchel gyfredol o chwyddiant ar y pryd yn gostwng yn ystod 2022/23, ond cydnabuwyd y risg y byddai chwyddiant yn codi ymhellach. Wrth osod cyllideb 2022/23, nodwyd fod mwy o ansicrwydd nag arfer ynghylch lefel tebygol ac y gallai cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellid lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.

Mewn gwirionedd, gwelwyd chwyddiant cyffredinol yn codi i lefelau nas gwelwyd ers degawdau. Mae'r rhagolygon annibynnol sydd wedi eu derbyn yn dangos fod disgwyliad i gyfraddau chwyddiant ostwng yn ystod 2023/24 ond byddant yn aros yn gymharol uchel yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu hyn ac rwyf yn fodlon fod amcangyfrifon darbodus o lefelau chwyddiant wedi eu cynnwys.

5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Yn 2021 roedd cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Fodd bynnag, er disgwylir cynnydd bychan pellach yn gynnar yn 2023/24, disgwylir i'r cyfraddau llog ddechrau gostwng yn nes ymlaen yn y flwyddyn wrth i'r economi grebachu a lefelau chwyddiant yn gostwng. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu a gostwng gyda'r llall.

6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol ym maes gofal cymdeithasol yn ystod blynyddoedd ariannol diweddar, ag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan ddaw grant i ben, ond mae'n bosib bydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

Credaf fod risg uwch na'r arfer yn 2023/24 o safbwynt incwm gan fod nifer o'r cynlluniau arbed arfaethedig ynghlwm â chynyddu incwm.
8. **Risg gyda Covid-19** – Daeth Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru, a fu'n digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £20m yn 2020/21 a £14.4m yn 2021/22, i ben ar 31 Mawrth 2022. Felly, yng nghyllideb 2022/23 Cyngor Gwynedd, gwnaed darpariaeth parhaol ychwanegol o £1.4m i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng. Hefyd, mae cronfeydd penodol (y Gronfa Covid, a Chronfa'r Strategaeth Ariannol) wedi cael eu diogelu i fod wrth gefn i gefnogi unrhyw wariant neu golled incwm uwchlaw'r £1.4m yng nghyllideb 2022/23. Yn ystod y flwyddyn, credir fod y gwir wariant fel canlyniad i Covid-19 wedi bod oddeutu £1.9m, a hynny'n bennaf oherwydd pwysau yn y maes digartrefedd. Mae'r swm o £1.4m yn parhau yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 ond credaf gellir rhyddhau'r Gronfa Covid mewnol bellach er mwyn ymdrin â phwysau ariannol ar y Cyngor.
9. **Risg ac Arbedion** – Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys £950,250 o arbedion hanesyddol oedd eisoes wedi eu rhaglennu, yn ogystal â £4.2m o arbedion newydd er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae hanes gan rai o adrannau'r Cyngor o fethu cyflawni eu cynlluniau arbed ac mae hynny'n cyflwyno risg arwyddocaol i gynladwyedd ariannol hirdymor. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth o 20% o werth cynlluniau arbed newydd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae cynlluniau arbed yn llithro.

10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.